# Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd Prifysgol Wrecsam

# POLISI GYRFAOEDD MOESEGOL

gofyn
Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

Fel un o adrannau Prifysgol Wrecsam sydd, yn aml, yn gweithredu fel pont rhwng myfyrwyr, graddedigion a sefydliadau trydydd parti, rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb o ran cyfiawnder cymdeithasol a chyfiawnder hinsawdd o ddifrif, gan wneud ein gorau i ddewis a dethol y sefydliadau y byddwn/na fyddwn yn gweithio gyda nhw.

Ein dull yw hyrwyddo'r wybodaeth sydd ar gael yn rhwydd yn gyhoeddus ynglŷn â materion moesegol yn ymwneud â chwilio am yrfaoedd a phenderfyniadau ynghylch gyrfaoedd. Rydym yn parchu hawl defnyddwyr y gwasanaeth i ddewis ac rydym yn eu hannog i gysylltu penderfyniadau gyrfaoedd â'u gwerthoedd nhw eu hunain.

Mae Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd Prifysgol Wrecsam yn ceisio hwyluso cydweithredu sy'n cyfrannu at wella'r gymdeithas a'r amgylchedd. O ganlyniad i hyn, mae yna rai diwydiannau sy'n rhwystrau sylfaenol rhag sicrhau byd mwy cyfiawn a chynaliadwy.

Yn y dyfodol, ni fydd Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd Prifysgol Wrecsam yn cydweithio â'r diwydiannau/cwmnïau canlynol, nac yn arddel cydberthynas â nhw, yn unrhyw un o'i ffrydiau gwaith:

Pob cwmni arfau, gan gynnwys y rhai sy'n rhan o weithgynhyrchu neu drosglwyddo arfau neu offer eraill a ddefnyddir i dramgwyddo hawliau dynol neu a gyflenwir i lywodraethau gormesol.

Cwmnïau Tanwydd Ffosil, fel y'u diffinnir yn Carbon Underground 200

Cwmnïau mwyngloddio, yn cynnwys y 100 cwmni glo a nodir yn Carbon Underground 200 a'r cwmnïau a nodir yn Transition Mineral Mining 50

Cwmnïau tybaco a chwmnïau sy'n cynhyrchu cynhyrchion sy'n seiliedig ar dybaco
Cwmnïau sy'n gysylltiedig â chreulondeb i anifeiliaid, yn cynnwys cynnal profion ar anifeiliaid ar gyfer cynhyrchion anfeddygol

Fel sefydliad addysg uwch, mae'n bwysig inni wrando ar ofynion y mudiad myfyrwyr, a gweithredu ar sail y gofynion hynny.

Gwasanaeth cymorth ym Mhrifysgol Wrecsam yw Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd Prifysgol Wrecsam, ac o'r herwydd mae'n dilyn Polisïau, Strategaethau a Chynlluniau Cynaliadwyedd Prifysgol Wrecsam. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yma: **https://wrexham.ac.uk/cy/cynaliadwyedd/polisiau-a-dogfennau/**

Llofnodwyd y polisi gan:



LYNDA POWELL, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau

19.05.2025



LUCY JONES, Rheolwr Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

19.05.2025